



Canllaw i Gael Mynediad at Blatfform e-Ddysgu GIG Cymru - Learning@Wales

Trosolwg:

Platfform dysgu cenedlaethol GIG Cymru yw Learning@Wales sy'n cynnig dros 350 o gyrsiau. Mae'r cyrsiau hyn ar gael i sefydliadau sy'n darparu gwasanaeth i'r sector cyhoeddus yng Nghymru (gan gynnwys meddygon teulu, nyrsys, cartrefi preswyl ac ati). Mae ystod eang o gyrsiau **am ddim** ar gael i gefnogi staff, yn enwedig yn ystod achos COVID-19.

Isod, ceir amlinelliad o gyrsiau allweddol y gofynnwyd am fynediad atynt yn ddiweddar:

Arsylwadau Sylfaenol

- Esbonio sut i gwblhau set sylfaenol o arsylwadau (e.e. pwysedd gwaed, cyflymder y galon, dirlawnder ocsigen).
- Amlinellu'r broses sydd ynghlwm a sut y dylid cofnodi'r wybodaeth.
- Ymarfer rhai o'r sgiliau.
- Darparu gwybodaeth gefndirol i asesu cleifion mewn lleoliad clinigol.

Atal a Rheoli Heintiau

- Cydnabod yr angen i amddiffyn y claf/defnyddiwr gwasanaeth a staff rhag y perygl o gael haint sy'n gysylltiedig â gofal iechyd.
- Deall pwysigrwydd a chymhwysiad arferion atal a rheoli heintiau e.e. hylendid dwylo ac amgylcheddau ac offer glân.
- Gwybod sut i gynnal eich iechyd ac amddiffyn eich hun rhag dod i gysylltiad â haint yn y gwaith.
- Meddu ar ddealltwriaeth o sut i adnabod mynychder cynyddol ac achosion cynyddol o heintiau.

Diogelu Oedolion a Phlant

- Cymhwyso polisiau a gweithdrefnau lleol a chenedlaethol wrth ymgymryd â gweithgareddau diogelu oedolion ac oedolion mewn perygl.
- Gwybod pa ddeddfwriaeth sy'n berthnasol i'r gwaith o ymgymryd â gweithgarwch diogelu oedolion mewn perygl.
- Deall eich dyletswyddau a'ch cyfrifoldebau mewn perthynas â'r polisi a'r fframwaith cyfreithiol.

Gwirio Marwolaeth

- Gallu diffinio beth yw gwirio marwolaeth a bod yn ymwybodol o'ch cyfrifoldebau proffesiynol a chyfreithiol. Bod yn ymwybodol o'ch polisiau a gweithdrefnau lleol.
- Gwybod y gwahaniaeth rhwng ataliad sydyn ar y galon, marwolaeth y gellir ei rhagweld a marwolaeth annisgwyl.
- Gwybod y weithdrefn lawn ar gyfer gwirio marwolaeth a deall yr angen am ofal urddasol yn dilyn marwolaeth.
- Bod yn gyfarwydd â'r dogfennau a'r broses o gadw cofnodion sy'n ymwneud â marwolaeth.
- Deall rôl yr archwilydd meddygol a'r crwner.
- Gwybod ymhle i gael cymorth profedigaeth a gwasanaethau cyngor.

I gael mynediad at y system, bydd angen i'r Tîm Dysgu Digidol greu cyfrif. Cwblhewch y ffurflen isod a'i dychwelyd i elarning@wales.nhs.uk



Nursing-residential
homes new user form

Os oes angen creu nifer o gyfrifon ar eich cyfer, cwblhewch y ffurflen cofrestru mewn swmp a'i dychwelyd i elarning@wales.nhs.uk



Blank bulk up load
form.csv

Yn ogystal, caiff canllaw cyflym ei anfon at y defnyddwyr er mwyn eu cefnogi, ac mae'r gwasanaeth hwn yn rhad ac am ddim.

Os oes gennych unrhyw ymholiadau neu os oes angen cymorth pellach arnoch, cysylltwch â'r Ddesg Gymorth Dysgu Digidol ar y canlynol:

Mae sgwrsio byw ar gael ar blatfform Learning@Wales

Ffôn: 01443 848636

E-bost: elarning@wales.nhs.uk

Mae'r amseroedd agor fel a ganlyn:

Dydd Llun i ddydd Gwener 9:00am–4.00pm

